OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 975 (Cy.45)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 147(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** –

(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) (Diwygio) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 31 Mawrth 2000

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

### Blwyddyn berthnasol

**2.** Yn erthygl 2 o Orchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) 1991 ("Gorchymyn 1991")(**3**) , yn y diffiniad o "relevant year", ar ôl "subsequent financial year" ychwaneger "until, and including, the financial year beginning in 1999".

### Addasiadau ardrethu hwyr

**3.** Ym mharagraff (2) o erthygl 3 o Orchymyn 1991, ar ôl "as mentioned in paragraph (1)," ychwaneger "and on or before 31st March 2001."

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S 1991/185.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis Thomas*

21 Mawrth 2000 — Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn Ardrethi a Phraeseptau (Addasiadau Terfynol) 1991 ("Gorchymyn 1991") yn darparu ar gyfer addasiadau ariannol, rhwng cyrff penodol a oedd, ynglŷn â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 1989, yn awdurdodau praeseptu (neu eu holynwyr) a'r cyrff a oedd, ynglŷn â'r flwyddyn honno'n awdurdodau ardrethu.

Mae'r addasiadau'n ymwneud â symiau sy'n adferadwy, neu a ddilëwyd fel rhai anadferadwy neu a ad-dalwyd, ar 1 Ebrill 1990 neu wedi hynny, a briodolir i ardrethi am gyfnod sy'n dod i ben cyn y dyddiad hwnnw, ac i gostau gweinyddol cysylltiedig.

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru'n unig, yn diwygio'r diffiniad o "relevant year" yn erthygl 2 o Orchymyn 1991 fel na fydd yr addasiadau'n gymwys ar ôl y flwyddyn ariannol 1999/2000 (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn diwygio erthygl 3 o Orchymyn 1991 fel bod rhaid gwneud hysbysiad o gyfrif a wnaed yn unol â'r erthygl honno ar 31 Mawrth 2001 neu cyn hynny (erthygl 3).